

Pris: 50c

Papur Pawb

Rhagfyr 2011 Rhif 374



“Milgi Milgi!”... Tud. 12

tud 3	tud 4	tud 7	tud 12
Pobl a Phethe	Yr Hosan Nadolig !	Afancod!	Y Gair Olaf

Y Llew Du ar ei newydd wedd



Dymuna Siôn a Catrin ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o gefnogaeth a gawsant ers i ddrysau'r Llew Du agor ar ei newydd wedd

Nid peth bychan heddiw mewn cyfnod o ddirwasgiad economaidd yw buddsoddi mewn busnes fel y mae Siôn Glyn a Catrin wedi'i wneud wrth brynu ac ailagor y Llew Du. Ond cafwyd cyfle i weld ffrwyth eu llafur a'u mentergarwch ar y noson agoriadol ar nos Wener, 25 Tachwedd, pan oedd aelodau Clwb Nos Wener yn cynnal eu cinio Nadolig. Dyma farn un a fu yno ar y noson: 'Roedd awyrgylch y lle mor gartrefol ac roedd y bwyd yn ardderchog. Yr hyn a dynnodd fy llygad i oedd gwaith llaw Ruth Jên sy'n addurno'r waliau – tapestrïau sy'n cynnwys patrymau carthennu Cymreig a nodau clustiau defaid. Roedd hynny'n rhoi blas lleol i'r lle, o gofio am bwysigrwydd y diwydiant gwlan a gwehyddu yn yr ardal. Mae'n amlwg fod llawer o feddwl wedi ei roi i'r gwaith cynllunio mewnol sydd mor chwaethus. Marciau llawn am yr awyrgylch a'r bwyd.'

Mae amserlen y partion Nadolig eisoes yn llawn, ac fe fu cymaint â 61 o bobl yng nghinio Nadolig Cymdeithas y Sioe. Bwriedir cynnal noson arbennig gyda phryd o fwyd ac adloniant Nos Calan. Am fwy o fanylion, cysylltwch ar y ffôn (01970) 832555 neu e-bostiwch croeso@gwestyllewdu.com

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr

Un o sêr Tal-y-bont yn cwrdd â seren y byd pop

Nid yn aml y mae neb yn cael y cyfle i fod mewn cyngerdd lle mae rhai o brif gantorion y byd pop yn canu. Ond i un bachgen lwcus o Dal-y-bont, daeth cyfle nid yn unig i glywed rhai o'i hoff artistiaid a grwpiau yn perfformio'n fyw, ond hefyd i gael cyfarfod a sgwrsio ag un o sêr y byd pop. Geraint Howard sy'n adrodd ei hanes:

"Ar y 17eg o Dachwedd ges i mam a Carys wahoddiad gan elusen 'When you Wish upon a Star' i fynd i gyngerdd Plant Mewn Angen 'Manchester Rocks'. Aethon ni ar y trên o Aberystwyth yn y bore a chyrraedd gwesty moethus y 'Palace Hotel' yn gynnar y prynhawn. Roedd yr elusen wedi cael ystafell i ni yno, gwesty pedair seren ofnadwy o grand.

Wedi cyrraedd stadiwm yr MEN, cwrddon ni â chynrychiolydd yr elusen a thri teulu arall oedd hefyd yn lwcus iawn o gael eu gwahodd a chawsom ein tywys i far yr adeilad am ddiod bach. Tra yno cefais wybod fy mod i a'r tri plentyn arall am gael cwrdd â Gary Barlow, trefnydd y cyngerdd. Dyna beth oedd sioc a gwefr ar yr un pryd a phan ddaeth i gwrdd â ni roedd yn sgwrsiog ac yn ffeind ofnadwy.

Ar ôl y cwrdd yma, aethon ni i gyd i lolfa yr elusen i gael diodydd a bwyd a sgwrsio cyn cael ein tywys i'r seddau cadw. Dyna beth oedd cyngerdd bythgofiadwy efo artistiaid o fri – Lada Gaga, JLS, Jessie J, Michael Buble, Andrea Bocelli a sawl un arall a roddodd eu hamser am ddim er mwyn codi arian ar gyfer Plant Mewn Angen. Fy ffeifryn i ar y noson oedd Dappy a Fazer, ond buom ni'n canu ac yn dawnsio i bob cân gan bob un artist – anodd iawn oedd sefyll yn llonydd efo'r cynnwrf oedd yna.

Wedi'r cyngerdd cawsom ein tywys yn ôl i'r gwesty gan gar a gyrrwr yr elusen – braf oedd hyn gan fod losin yn bob un poced yn y car i ni eu bywta fel y mynnwn. Dyna oedd diwrnod anhygoel, diwrnod nad anghofia i byth."



Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talleis, MACHYNLETH
Ponys 5120 BIG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Cysyllter â golygyddion y mis.

Tynnu lluniau:

Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Parsel Henllys: Dilys Morgan, Alltgoch 832498
Eglwysfach/Fwrnais: Wendy Fuller, Pandi, Fwrnais (01654)781312
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Taliesin 832230
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Tre'r Ddôl: Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl 832429
Janet Evans, Cefngweiriog (01654) 781260
Maes y Deri: Eirlys Jones, 91 Maes y Deri 832483

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Geraint Pugh, Cysgod-y-Llan, Tal-y-bont 832433
Is-gaderydd: Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Ysgrifennydd: Siân Pugh, Cysgod-y-Llan, Tal-y-bont 832433
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgriafuad: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Wendy Fuller, Pandi, Fwrnais (01654) 781312
Plygu: Gwenllian Parry-Jones, Lyn Hammonds
Dosbarthwyr: Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones.

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cynngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd y Gorllewin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyrau

Annwyl ddarllenwyr,
Medal Syr T. H. Parry-Williams

Ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi gwirfoddoli i helpu pobl ifanc am flynyddoedd lawer rywle yng Nghymru? Hoffech chi enwebu rhywun sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yn eich hardal leol? Ydych chi'n awyddus i weld rhywun yn cael ei anrhydeddu ar lwyfan Pafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol am eu gwaith cymunedol?

Efallai felly eich bod chi'n adnabod rhywun y dylid ei h/enwebu ar gyfer Medal Goffa Syr Thomas Parry-Williams yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae enwebiadau eisoes wedi agor, ac mae angen derbyn gwybodaeth am unrhyw un sy'n gymwys erbyn diwedd Ionawr 2012.

Bu Syr T.H.Parry-Williams yn gefnogwr brwd o'r Eisteddfod Genedlaethol, ac yn Awst 1975, yn dilyn ei farwolaeth ychydig fisoedd ynghynt, sefydlwyd cronfa i goffáu ei gyfraniad gwerthfawr i weithgareddau'r Eisteddfod. Gweinyddir y gronfa gan Ymddiriedolaeth Syr Thomas Parry-Williams.

Os ydych chi'n gwybod am unrhyw un yr hoffech eu henwebu ar gyfer Medal Syr T.H. Parry-Williams yn 2012, cysylltwch â mi ar 0845 4090 300, neu drwy ebostio gwyb@eisteddfod.org.uk. Gallwch hefyd ofyn am ffurflen enwebu drwy ysgrifennu ataf i'r cyfeiriad hwn - 40 Parc Ty Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU.

Y dyddiad cau ar gyfer pob ffurflen enwebu yw 31 Ionawr 2012, a chyflwynir y Fedal mewn seremoni arbennig ar

lwyfan Pafiliwn yr Eisteddfod yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg a gynhelir rhwng 4-11 Awst. Cyhoeddir enw'r enillydd ym mis Ebrill.

Edrychaf ymlaen i dderbyn enwebiadau o bob cwr o Gymru. Yn gywir iawn, Elfed Roberts Prif Weithredwr

Annwyl Olygydd
Dathlu 80 Mlynedd
Mae Eglwys y Bedyddwyr Horeb, Penrhyn-coch, Aberystwyth yn dathlu 80 mlynedd ers agor y Festri a threfnwyd arddangosfa o luniau, dogfennau, hen raglenni, llestri, tarianau ayyb i nodi'r achlysur arbennig hwn.

Gwyddom fod yna nifer o bobl a fagwyd yn Horeb Penrhyn-coch bellach wedi symud i fyw i ardaloedd eraill yng Nghymru ac fe hoffem ofyn yn garedig drwy gyfrwng eich papur bro a oes gan eich darllenwyr unrhyw lun neu atgof arbennig am eu cyfnod yn Horeb. Byddem yn falch iawn o glywed ganddynt os yn bosib cyn Ionawr 1af, 2012.

Yn gywir
Judith Morris
Gweinidog Horeb, Berwynfa, Penrhyn-coch, berwynfa@btinternet.com, 01970 820939

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Bleddyn a Delyth Huws gydag Iolo ap Gwynn yn dylunio. Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Geraint Evans (post@garnwen.org.uk, 832473) a Geraint a Siân Pugh. Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn dydd Gwener, 6 Ionawr. Bydd y papur ar werth ddydd Gwener 13 Ionawr.

Dyddiadur

Rhagfyr

11 Bethel 5 Gweinidog
Nasareth Oedfa'r Plant (Garn)
Rehoboth Oedfa'r Plant (Garn)
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun
Bendigaid

13 Cyfarfod Chwirydd Rehoboth 2
(Emyr Llewelyn)

14 Pwyllogor Neuadd

18 Bethel 10 Gweinidog (C)
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 2 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11 Boreuol
Weddi

Bethel 6 o'r gloch
Gwasanaeth Nadolig Merched
y Wawr

19 Neuadd Goffa 6.30
Noson Goffi Cylch Meithrin
Talybont

21 Gyrfa Chwist Dofednod 8.00
Neuadd Goffa Tal-y-bont
22 Os Mets 7 y p Canu Carolau
Cartref Tregerddan ac
Afallen Deg
23 Eglwys Dewi Sant 5y p
Gwasanaeth Carolau Teuluol
24 Bethel 5.30 o'r gloch
Gwasanaeth y Plant
25 Bethel 10 Gwasanaeth y
Nadolig
Nasareth Oedfa'r Ofalaeth
(Garn)
Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth
(Garn)
Eglwys Dewi Sant 8.30
Cymun Bendigaid

Ionawr

1 Bethel 10 Gweinidog
Nasareth Uno ym Methel

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech ddanfyn y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442), glenysedwards33@btinternet.com o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Oedfa Arbennig yng Nghwmni Dafydd Iwan

Ar brynhawn Sul, 11eg o Ragfyr am 2 o'r gloch cynhelir Oedfa Arbennig i Blant ac Ieuencid yng Nghanolfan y Morlan yng nghwmni Dafydd Iwan

Croeso cynnes i bawb

Trefnir yr oedfa o dan nawdd Menter Gydenwadol Eglwys Gogledd Ceredigion.

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Dymuna

**Kathleen Richards,
Y Bryn,**

Nadolig Lawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i'w holl ffrindiau
a chydabod, a
diolch i bawb am eu
caredigrwydd yn ystod y
flwyddyn

Diolch

Hoffai Barrie, Richard a
Claire a'r teulu
ddiolch yn fawr iawn i
bawb am bob arwydd
o gydymdeimlad a
charedigrwydd tuag atynt
yn dilyn colli eu mam
annwyl, sef
Mrs Margaret Jones,
Erw Deg, Glantwymyn.

Rhoddion

Dymunir diolch i'r canlynol
am eu rhodd i
Bapur Pawb
yn ddiweddar:
Barrie Jones, Llys Terfyn,
Tal-y-bont; Huwel Manley,
Llangadog; Kathleen
Richards, Y Bryn.

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Rhian Jones, merch Reg ac Eurllys Jones, Eurfan, Tal-y-bont, ar ei phenodiad yn Brif Weithredwraig Canolfan Cymry Llundain. Mae Rhian ar hyn o bryd yn gweithio gyda Shelter Cymru ac yn byw yn Abertawe. Fe'i clywir yn aml ar y radio a'r teledu yn trafod problemau'r digartref yng Nghymru. Bydd yn cychwyn ar ei swydd newydd ym mis Ionawr, a dymunwn bob llwyddiant iddi.

Teg edrych tuag adre

Mae Heledd Owen, ei gŵr Geraint a'u mab bychan Llew Jacob, wedi dychwelyd o Lundain i Gaerdydd. Penodwyd Heledd yn Rheolwr Cyfathrebu i Lywodraeth Cymru ac mae Geraint wedi cael swydd fel Is-Olygydd 'Wales Today' ar BBC Cymru. Mae'r teulu wedi ymgartrefu'n hapus yn Nhreganna ac mae Llew yn mynychu Meithrinfa Si Lwli. Mae Heledd yn ferch i Geraint ac Eirian Evans, Garnwen.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau mawr i Greg Spencer, Tŷ Manceinion, Tre Taliesin, a Sophie Fox (o Chichester) sydd wedi dyweddïo'n ddiweddar.

Cydymdeimlad

Yr oedd yn drist gennym glywed am brofedigaeth Barrie Jones, Llys Terfyn, a Claire, Tŷ Ffwrnais, a'r teulu i gyd ar golli eu mam yn ddiweddar, sef Mrs Margaret Jones o Erw Deg, Glantwymyn. Cydymdeimlwn hefyd ag Iorwerth Jones, Brynamor, Tre Taliesin, yn sgil colli ei gymar, Olive Lawor o Wolverhampton. Cydymdeimlir hefyd ag Edwina Rhodes, 1 Maesyfelin, a gollodd ei mam yn ddiweddar, a Nigel Petts, Tŷ Ffwrnais, ar farwolaeth ei dad.

Brysiwch wella

Dymunir gwellhad buan i'r Parch Cecilia Charles, Ficer Eglwys-fach a Llangynfelyn a gafodd lawdriniaeth frys yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau hefyd am wellhad buan i Robert Evans, Trem-y-rhos, Bont-goch, sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Un arall a fu yn Ysbyty Bronglais yn derbyn triniaeth yw Howard Ovens, Frondirion, ac yr ydym yn dymuno llwyr wellhad iddo.

Lwc cyn y Nadolig

Llongyfarchiadau i Kathleen Richards, Y Bryn, ar ennill hamper mewn cystadleuaeth ar y rhaglen 'Wedi 3' ar S4C yn ddiweddar.

Pobl a Phethe



ANRHYDEDD I ERYL

Llongyfarchiadau mawr i Eryl Bray, Tir Na-Nog, Tal-y-bont, ar dderbyn Gwobr Cydnabod Llwyddiant 2011. Thema'r wobwr eleni oedd 'Iechyd - Arloesi gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd'. Mae Eryl wedi bod yn gweithio fel Rheolwraig Tim Plant Anabl Ceredigion, Gwasanaeth Datblygiad Plant er 1991. Cyflwynwyd y wobwr gan Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, a Lesley Griffiths, y Gweinidog Iechyd, ar y 10^{fed} o Dachwedd yng Nghastell Rhuthun.

Eglwys St Pedr, Elerch

Cwblhawyd y gwaith o beintio ac addurno to a muriau Eglwys Elerch gan adfer y lliwiau gwreiddiol i'r gangell a chorff yr Eglwys. Cynhelir y gwasanaeth blyneddol o garolau ar nos Wener 9 Rhagfyr am 7.00 pm. Gwneir casgliad tuag at Ambiwylans Awyr Cymru. Croeso cynnes i bawb.

Perfformwyr lleol

Llongyfarchiadau i Manon Rhys ac Elen Thomas o Glwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a gafodd y drydedd wobwr am ganu deuawd yn Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc yn y Rhyl. Llongyfarchiadau hefyd i Catrin Huws, Esther Ifan ac

Elin Wallace, tair telynores leol a oedd yn cynrychioli Ysgol Gyfun Penweddig, am ddod yn drydydd mewn cystadleuaeth i ddeuawdau a thriawdau telyn yn yr Ŵyl Gerdd Dant ym Mhontyberem.

Braf oedd gweld dau o ieuencid Tal-y-bont yn cymryd rhan yn y cyngerdd gyda Chôr y Lli yn Eglwys Llanbadarn ddechrau'r mis, sef Carys Howard a Sam Ebenezer. Roedd canmoliaeth fawr i'r cyngerdd.

Cymdeithas y Chwirydd, Rehoboth

Croesawyd Manon Rhys, enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam eleni, i'r cyfarfod yn festri Capel Rehoboth, Tre Taliesin, ar brynhawn Iau, 10 Tachwedd. Treuliwyd prynhawn difyr iawn yn gwrandao arni yn trafod rhai o'i nofelau ac

yn darllen pytau ohonynt. Diolchwyd iddi gan Mai Leeding, ac yna mwynhawyd paned o de wedi ei baratoi gan Olwen Rowlands a Megan Brickley.

Genedigaeth

Braf yw cofnodi genedigaeth mab bach i Stuart Jones a Terry Burns, sef Shae Owen Jones. Llongyfarchiadau i Nicky a Sean Burns ar ddod yn fam-gu a thad-cu, ac i Pam Burns ar ddod yn hen fam-gu.

Symud tŷ

Mae Cyril Baker wedi symud i fyw i Lerry View, Tal-y-bont, ac mae Keith Richards a'r bechgyn wedi symud i 3 Heol y Capel. Gobeithio y byddant yn ymgartrefu'n hapus yno.

Damwain

Da gweld bod Ifan Astley Siop Spar yn gwella ar ôl y ddamwain a barodd iddo gael triniaeth yn Ysbyty Treforys.

Wedi danfon y pryd olaf

Mae Goronwy a Tegwen Jones, Glasgoed, wedi rhoi'r gorau i ddanfon y Pryd ar Glud ym mhentrefi gogledd Ceredigion wedi iddynt fod wrth y gwaith am gyfnod o ugain mlynedd. Bu'r ddau yn danfon bwyd yn rheolaidd i henoed yr ardal am dridiau bob mis ar gyfartaledd, a hynny ym mhob tywydd, ond teimlant ei bod yn bellach yn bryd iddynt gael ychydig o orffwys. Yn sicr, fe fydd llawer o bobl yn ddiolchgar iddynt am eu gwasanaeth ar hyd yr holl flynyddoedd, a gwyddom fod eu gwaith wedi cael ei werthfawrogi gan amryw. Cymwynaswyr fel hyn sy'n cynnal cymdeithas wâr.

Llwyddiant lleol yn y Ffair Aeaf

Llongyfarchiadau mawr i Dilys Morgan, Alltgoch, am gael y wobwr gyntaf am addurno hosan Nadolig, ac am gael ail a thrydedd wobwr am wneud cardiau. Hi a enillodd y wobwr am y mwyafr o bwyntiau yn y gystadleuaeth, ac fe gafodd fowlen wydr fel cydnabyddiaeth. Cafodd Beca Fleming Jenkins y wobwr gyntaf am addurno wy, a thair gwobr yn yr adran ddofednod. Un arall a gafodd lawer o lwyddiant oedd Marion Evans, Tynant. Hi a enillodd bencampwriaeth y 'Ffowlyn i'r Ffwrn', ac fe enillodd aelod arall o deulu Tynant, sef Elgan, y drydedd wobwr yng nghystadleuaeth y da duon Cymreig. Da iawn chi i gyd.

PARTI CALAN
Rhagfyr 31
Neuadd Goffa Tal-y-bont
6.30 tan 12

Noson ar ffurf Hen Galan
Clwb Nos Wener
Band Twmpath:
"A Llawer Mwy"

Oedolion £2.50
Plant am ddim
Dewch â'ch lluniaeth eich hunan

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN



Pencefn, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Yr Hosan Nadolig

Os ydych yn crafu'ch pen beth i'w gael yn anrhegion Nadolig i hwn-a'r-llall eleni, dyma rai syniadau am anrhegion sydd â chysylltiadau lleol.

Doliau Carola Monaghan

Mae Carola Monaghan o Fancfelin, Tal-y-bont, sy'n gweithio fel nyrs a gofawraig, yn hoff o greu doliau yn ei hamser hamdden. Dechreuodd droi ei llaw at wneud doliau ryw saith mlynedd yn ôl ar gyfer ei phlant ei hun, ond erbyn hyn mae'n eu gwneud ar gyfer eu gwerthu. Gall gymryd hyd at ddau ddiwrnod iddi wneud un o'r doliau mwyaf eu maint, ac mae'r holl ddefnydd a ddefnyddia i'w gwneud, yn cynnwys y dillad a roir amdanynt, naill ai'n organig neu wedi ei ailgylchu. Gwlan dafad a ddefnyddia ar gyfer y wadin yn y canol.

Mae'r doliau ar werth yn siop y Treehouse yn Aberystwyth ar hyn o bryd, ond fe ellir archebu rhai yn uniongyrchol gan Carola ym Mancfelin. Pris y doliau mwyaf ganddi yw £80, ac mae'r rhai lleiaf yn gwerthu am £10. Ei rhif ffôn yw 832387, a'i chyfeiriad e-bost yw carola.monaghan@btinternet.com



Tlws llechen i'w roi am y gwddw



Artist sy'n byw yng Nghapel Ceulan yw Caroline Maddison. Mae'n ennill ei bara menyn drwy weithio yn siop Trysorau yng Nghrefftau Pennau yn Rhydpennau, ond mae hefyd yn creu ei thlysau ei hun o ddarnau o lechi. Maent yn amrywio o ran eu pris o £12 am bâr o glustdlysau i £18 am dlws ar ffurf calon i'w roi am y gwddw. Gellir gweld y cynnyrch sydd ganddi ar werth ar ei gwefan: www.ceulanjewelry.etsy.com

Llyfr Jôcs y LOLfa, gol. Meinir Wyn Edwards; Y Lolfa, 2011; Pris £4.95


Ni fydd raid ichi dynnu unrhyw gracyr er mwyn mwynhau jôc fach neu ddwy gyda'ch cinio Nadolig eleni gan fod Llyfr Jôcs y LOLfa yn llawn o'r jôcs Cymraeg mwyaf gwreiddiol erioed. Gyda Dewi Pws a nifer o blant Cymru ymhlith y cyfranwyr, gallwch fod yn sicr o lond bol o chwerthin iach. Cracyr o lyfr ar gyfer eich hosan Nadolig.

Llyfrau i'r plantos

Rapsgaliwn : O ble mae coed Nadolig yn dod?

Raplyfr 2 gan Beca Evans; Y Lolfa; Pris 2.95


Dyma'r ail lyfr am rapiwr gorau'r byd, sef Rapsgaliwn. Mae ffrindiau bach aur Rapsgaliwn yn ei holi o ble mae coed Nadolig yn dod. Trwy gymorth y raplyfr hud, mae'r criw yn mynd ar antur i goedwig fawr er mwyn darganfod yr ateb, gan helpu Siôn Corn i addurno ei goeden Nadolig ef yn ystod eu taith. Mae'r llyfr lliwgar hwn am un o hoff gymeriadau rhaglenni teledu Cyw yn sicr o blesio'r plant lleiaf. Dyma anrheg ddelfrydol i'w rhoi ym mhob hosan Nadolig!



Alun yr Arth yn y Castell gan

Morgan Tomos; Y Lolfa, 2011; Pris £2.95

Dyma'r pymthegfed llyfr yng nghyfres boblogaidd Alun yr Arth, gan yr awdur lleol Morgan Tomos. Unwaith eto mae'r awdur yn gwau llun a stori yn gelfydd, gan bwysleisio Cymreictod a hanes Cymru i'r plant. Yn y stori hon mae Alun yr Arth bach drygionus yn ymweld â chastell gyda'i rieni. Yn ystod yr ymweliad, dychmyga Alun ei fod yn ôl yn oes Owain Glyndŵr yn brwydro yn erbyn brenin a brenhines Lloegr. Wrth gwrs, mae chwarae'n troi'n chwerw wrth i un o waliau'r castell ddmchwel o dan ei draed, ond llwydda Alun i osgoi cael stŵr gan ei rieni wrth iddo ddarganfod trysor mwyaf gwerthfawr Cymru, sef coron a chleddyf Owain Glyndŵr, yng nghanol y cerrig.



Ffair y Neuadd



Billy Swanson oedd enillydd cystadleuaeth enwi'r carw – sef Siôn.

Bu Ffair y Neuadd Goffa'n llwyddiant eleni eto. Llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus o £1240.90. Roedd y stondinwyr arferol yno, sef y gwahanol gymdeithasau a'r mudiadau sy'n defnyddio'r Neuadd yn rheolaidd - Pwyllgor y Sioe a'r Cŵn Defaid, Merched y Wawr, Cymdeithas Papur Pawb, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Tal-y-bont, Y Ffermwyr Ifainc, Y Clwb Ieuencid, Clocswyr Ceulan a Sefydliad y Merched. Wrth ddiolch i bawb a gefnogodd y Ffair eleni ym mhob dull a modd, dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli, Bleddyn Huws: 'Drwy gasglu arian fel hyn yn flynyddol yn y Ffair mae'r Pwyllgor yn llwyddo i gadw pris llogi'r Neuadd yn rhesymol iawn ar gyfer y sawl sy'n ei defnyddio'n rheolaidd. Fel popeth arall y dyddiau hyn, mae costau cynnal a chadw'r Neuadd yn codi bob blwyddyn, ond gyda'r arian a gesglir yn y Ffair byddwn yn gallu cadw'r pris llogi am y flwyddyn nesaf yn rhesymol.'

Lluniau gan Lois Jones



Myfanwy James a Tegwen Jones yn gweini'r te a'r cacennau

Rhybudd rhag twyll yn iaith y nefoedd

Mae pawb sy'n defnyddio e-bost yn gyfarwydd iawn â derbyn negeseuon amheus gan ddiethriaid yn gofyn am arian, neu'n chwilio am rywun i drosglwyddo symiau anferthol o arian i'w cyfrif banc o wlad dramor. Mae'r heddlu yn rhybuddio pobl yn gyson rhag ymateb i negeseuon o'r fath gan mai ceisio twyllu pobl y maent er mwyn cael mynediad at gyfrifon banc a manylion personol. Mae'r math yma o drosedd electronig ar gynydd. Ond prin hyd yma yw negeseuon sy'n cael eu hanfon yn Gymraeg. Tynnwyd ein sylw gan Geraint Evans, Garnwen, at neges amheus a dderbyniodd yn ddiweddar, a honno yn Gymraeg. Meddai Geraint:

"Rwyf wedi derbyn e-byst cyffelyb yn Saesneg ond dyma'r tro cyntaf imi gael un yn y Gymraeg. Fel y sylwch mae'r Gymraeg yn wallus tu hwnt mewn rhai mannau ond wedyn mewn llefydd eraill yn reit gywir. Meddyliais a oedd y danfoddydd wedi troi at beiriant cyfieithu megis Google Translate? Nid wyf yn adnabod unrhyw Gwefyl Jones ond mae'r cyfeiriad e-bost (btinternet) yn ymddangos yn ddigon real. Nid wyf wedi ateb (rhag ofn i ryw drychfilod lano yn y cyfrifiadur) ac yn sicr nid wyf wedi cyfrannu at yr achos!!"

Rhag ofn y bydd rhai o ddarlennwyr y papur yn derbyn negeseuon tebyg ac yn ymateb iddi yn gwbl ddiniwed, dyma'r neges yn union fel y cafodd ei derbyn:

"From: G JONES [mailto:gwefyljones@btinternet.com]

Sent: 10 November 2011 09:51

To: undisclosed recipients:

Subject: YW HWN O Gwefyl Jones

Helo,

Rwy gyda theulu ar wyliau ym Madrid, Sbaen ac mae llawer o bethau wedi cael ei spewing. Rydym yn cael eich mygio neithiwr mewn lôn gan griw o thugs ar ein ffordd yn ôl o siopa, un ohonynt wedi gyllell procio fy gwddf am bron i ddwy funud a popeth yr ydym wedi ei gael ar ein gan gynnwys fy ffôn cardiau credyd gell, eu dwyn i gyd, eithaf onest ei fod y tu hwnt i brofiad ofnadwy i ni ond yn edrych ar yr ochr olau doedden ni ddim yn brifo neu eu hanafu'n ddifrifol ac rydym yn dal i fyw fel eu bod yn beth sydd yn bwysig.

Rwyf wedi rhoi gwybod i'r cops yma ac yn canslo ein holl gardiau, roedd yn ymddangos wyf wedi gweithredu'n ddigon cyflym neu y byddent bron wedi llwyddo i lanhau allan fy nghyfrif banc. Dwi wir yn cael rhai anawsterau clirio ein biliau gwesty a hefyd angen i chi godi tocyn taleb wrth y cownter i ni ddal yn hedfan gartref yn ôl mewn awr neu ddwy.

Roeddwn yn rhyfeddu pe baech yn gallu benthg y mi os gwelwch yn dda rhywfaint o arian tra'n disgwyl pan fyddwn yn cael pethau'n sythu allan ac yr wyf yn addo i ad-dalu cyn gynted ag y byddwn yn cyrraedd adref yn ddiogel. Y cyfan sydd angen i ni fynd yn ôl yw £ 1,550.00

Ysgrifennwch ataf yn ôl a gadael i mi wybod pa mor fuan y gallwch ei gael i ni cyn gynted â phosibl
Cofion Gwefyl."

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Aeth pedair o'r aelodau, sef Megan Mai, Mai Leeding, Ann Humphreys a Carys Briddon, i gynrychioli'r gangen drwy gymryd rhan yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol a gynhaliwyd yn Nhy-glyn Aeron ar nos Wener, 18 Tachwedd, ac fe'i llongyfarchwyd am ddod yn gydradd drydydd drwy Geredigion.

Gan fod y wraig wadd wedi methu dod atom ar y funud olaf, buom yn ffodus iawn fod Phil Davies, Tal-y-bont, wedi medru dod i lenwi'r bwlch. 'Amdanardodo' oedd teitl ei sgwrs, ac adroddodd ambell stori am rai o'r cymeriadau a fu'n byw yn ei ardal enedigol, sef Llandysul. Mae Phil yn aelod o dim Talwrn y Beirdd ac wedi ennill gwobrau am ei gerddi, felly darllenodd rai ohonynt, rhai dwys a rhai doniol, i'w gwerthfawrogi gan yr aelodau. Diolchwyd iddo gan Medi James, ac Ann Jenkins a Falyri Jenkins oedd yng ngofal y te.



O'r Cynulliad Elin Jones AC

Mae dyfodol ein gwasanaethau iechyd yn parhau yn un o'm blaenoriaethau ac roeddwn yn siomedig iawn i glywed bod y Bwrdd Iechyd wedi penderfynu lleihau'r nifer o welyau sydd ar gael yn Ysbyty Cymunedol Tregaron o 14 i 12. Fe gwrddais i a'r Cynghorydd Catherine Hughes yn

syth gyda chynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd i drafod y cam hwn, ac mae'n amlwg mai pwysau staffio a chyllido sy'n gyfrifol am y penderfyniad. Gwraidd hyn oll, wrth gwrs, yw'r lleihad mewn gwariant cyhoeddus sydd wedi cael ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU ac mae'n debyg y byddwn yn gweld toriadau eraill i'n gwasanaethau cyhoeddus dros y misoedd nesaf.

Rwy'n siŵr y bydd nifer o ddarlennwyr selog y golofn hon yn ymwybodol fy mod wedi bod yn ymgychu dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau gwell cysylltiadau â'r rhyngwyd band-eang i drigolion Ceredigion. Ychydig wythnosau yn ôl, fe fynychais ddigwyddiad yn Llanbedr Pont Steffan oedd wedi ei drefnu gan Gyngor Sir Ceredigion ar sut y gellir mynd i'r afael â'r ardaloedd sydd dal yn methu derbyn cysylltiad band-eang, neu sy'n derbyn cysylltiad araf iawn ar hyn o bryd.

Roedd hi'n dda gweld nifer o gwmnïau amrywiol yn bresennol i esbonio sut y gall eu gwasanaethau ateb y broblem, ac rwy'n gobeithio bod y trigolion lleol oedd yn bresennol wedi dysgu mwy am y posibilrwydd o dderbyn band eang trwy loeren a thrwy'r rhwydwaith o fastiau ffonau symudol. Mae'r Cynllun Cymorth Band-eang sy'n cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru'n medru helpu'r cartrefi a'r busnesau sydd heb gysylltiad band-eang digonol, ac mae croeso ichi gysylltu â'm swyddfa ar 01970 624 516 os hoffech fwy o fanylion ynghylch y cynllun.

Eleni, fe fynychais wasanaeth Sul y Cofio yn Aberteifi ac roedd yn dda gweld cymaint o bobl y dref wedi dod at ei gilydd unwaith eto i osod y torchau ger y gofadaill. Yn ychwanegol, y diwrnod cynt, fe gefais y pleser o agor ffair Ysgol Gyfun Pen-glais, Aberystwyth, ac roeddwn yn falch o weld criw da wedi dod ynghyd i gefnogi'r ysgol a'r gweithgareddau codi arian.

Mathew Davies
Plymio a Gwresogi



07964 124 457 ar gael 24 awr
hefyd gwaith teilio


Nwy • Olew • Tanwydd Sôlet • Solar

Gwasanaeth Tyllino Proffesiynol
yng nghysur eich cartref
yn arbenigo mewn tyllino corff ac ar gyfer chwaraeon

Am fanylion pellach cysylltwch a Michelle ar y ffon 01654 781314 or 07984 501479

michellejsymes@btinternet.com

Prisiau cystadleuol a chanolwyr lleol ar gael



Siop Y Bont, Bronant
Jac-do, Aberaeron
Inc, Aberystwyth
CCF - Aberystwyth, Aberteifi,
Felinfach & Tregaron
Sianti, Aberaeron
Siop Llanfair Clydogau

LLAFUR CARIAD

Dathlu 70 mlynedd Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion

AR WERTH AM £10 YN Y SIOPAU CANLYNOL:

Siop Y Smotyn Du, Llanbed Awen Teifi, Aberteifi
Iago, Castell Newydd Emlyn
WD Lewis a'i fab, Llanbed Wynnstay, Tregaron
Rhiannon, Tregaron
Medical Hall, Tregaron
Toriad Taclus, Llanybydder

Eithafion y tywydd

Hwn fu'r hydref cynhesaf ers blynyddoedd lawer, a'r mis Tachwedd hwn fu'r ail gynhesaf ers dechrau cadw cofnodion. Mae llawer ohonom wedi sylwi ar rai blodau'n y gerddi a'r perthi sydd wedi ailflodeuo. Mae rhai adar hyd yn oed fel petaent yn synhwyro ei bod yn ddechrau'r tymor nythu. Yng ngardd Gwen a Gareth Hughes, Coetmor, er enghraifft, mae blodau ar y coed *Rhododenderon* ac ambell rosyn yn blodeuo. Meddai Gwen Hughes: 'Mae wedi bod mor dynyr yn tydi? Mae gen i flodau blynyddol yn y borderi na fydddech ddim yn disgwyl eu gweld nhw'n dal yn eu blodau ar ddechrau mis Rhagfyr.'

Mae'r ddaear yn syndod o las, ac ar wahân i ambell noson o lwydrew, ni chawsom ddim oerfel gwerth sôn amdano. Yn sicr, dim byd tebyg i'r oerfel a gawsom yr adeg yma y llynedd, oherwydd yr oedd yr eira cyntaf wedi cyrraedd cyn diwedd Tachwedd y llynedd, a gostyngodd y tymheredd mewn rhai ardaloedd i gymaint â 18 gradd o dan y rhewbwynt. Mae rhai yn darogan gaeaf mwyn inni eleni, ac mae eraill yn ofni y bydd hi'n oeri'n sydyn ac y bydd cyn oered ag oedd hi y llynedd.

Gyda thrafodaethau'r Cenhedloedd Unedig ynghylch yr hinsawdd yn cael eu cynnal yn Ne Affrica yn ystod wythnos gyntaf mis Rhagfyr, mae llawer o ganolbwyntio ar y lefelau cynyddol o nwyon tŷ gwydr sy'n yr hinsawdd. Cyhoeddwyd yn ddiweddar fod lefelau carbon deuocsid a methan wedi codi'n eithriadol. Bu'r golygyddion misol yn holi'r gwyddonydd Dr Iolo ap Gwynn am batrymau'r tywydd.

Gol: Ar ôl cael dau aeaf caled iawn ar ôl ei gilydd, pam y mae'r Tachwedd hwn wedi bod mor fwy'n?

IapG: Yn y lle cynta, does dim disgwyl i batrwm tywydd un flwyddyn ddilyn yr un cynt. Mae'r tywydd a gawn yn llwyr ddibynnol ar gyfuniad cymhleth o ffactorau. Gall pob un o'r ffactorau hynny amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yma yng Nghymru rydym ar y ffin rhwng amodau oer yr arctig a chynnes y trofannau. Ceir gwyntoedd cryfion iawn y "Llif Jet" yn yr ardal hon, yn chwythu o'r gorllewin i'r dwyrain ymhell uwchben y cymylau. Dilyn y llif hwn a wna pob gwasgedd isel (sy'n dod â gwynt a glaw i ni fel arfer). Gan amlaf bydd y llif i'r gogledd o Gymru, ac felly cawn dywydd gwlyb, cynnes. Ond, os bydd y llif yn symud rhywfaint i'r de gall gwyntoedd oer yr arctig lifo drosom – fel a ddigwyddodd y llynedd. Does dim dal lle'n union bydd y llif yn chwythu, felly hefyd ein tywydd.

Gol: Mae byd natur fel petai wedi drysu. Mae blodau yn blodeuo allan o'u tymor ac mae rhai adar fel petaent yn dechrau nythu. Sut mae natur yn mynd i addasu?

IapG: Gan nad oes sicrwydd yn y tywydd a gawn o dymor i dymor mae byd natur wedi hen arfer gyda'r amodau cyfnewidiol hyn. Gall rhai rhywogaethau fanteisio ar amodau ac eraill ddioddef eleni, ond mae'n bur debyg mai gwahanol fydd pethau arnynt y flwyddyn nesa. Felly, bydd y cydbwysedd o fanteisio ac anfanteisio yn newid. Cyn belled nad yw'r cyfnewidiadau yn rhy eithafol does dim anhawster.

Gol: Os yw'r byd yn cynhesu, a ddylem fod yn disgwyl mwy o aeafau cynnes yn y dyfodol?

IapG: Does dim amheuaeth o gwbwl fod hinsawdd y ddaear yn cynhesu. Mae hynny yn hollol amlwg, waeth be ddywed yr ychydig amheuwyr. Dengys pob mesuriad a wnaed fod hyn yn digwydd. Byrhau'n sylweddol wnaeth y gaeafau o fewn cof llawer ohonom. Pan yn blentyn gallwn weld copa'r Wyddfa o'm cartref. Gwyn gan eira fyddai'r copa'n barhaol o fis Tachwedd tan Ebrill yn yr 1950au. Bellach, mynd a dod wna'r eira drwy'r gaeaf. Mae'r cynnydd mewn nwyon megis carbon deuocsid a methan yn yr atmosffer yn golygu fod yr aer yn amsugno rhagor o wres yr haul. Y gwres hwn sy'n gyrru 'peiriant' y systemau tywydd – megis y "Llif Jet"; gan benderfynu ei gyflymder a'i lwybr. Darogan y modelau cyfrifiadurol soffistigedig, sydd gan y rhai sy'n astudio'r materion hyn, ydi mai canlyniad y cynnydd



Y *Rhododenderon* sy'n blodeuo yng ngardd Coetmor

hwn mewn gwres fydd patrymau tywydd mwy eithafol a "Llif Jet" mwy anwadal fyth. Felly, gallwn ddisgwyl rhagor o eithafion tywydd ond gyda byrhau pellach yn hyd y gaeaf ar gyfartaledd.

Gol: Pam y mae lefelau carbon deuocsid wedi codi 39% rhwng 2009 a 2010, a methan wedi codi 158% yn yr un cyfnod, a llywodraethau'r byd yn ceisio ein perswadio bod ynni gwyrdd yn gwneud lles?

IapG: Yn syml, daw'r cynnydd mewn carbon deuocsid yn yr atmosffer o ganlyniad i bobl fod yn llosgi tanwydd ffosil; sef olew, glo a nwy; hynny yn bennaf dros y ganrif ddiwethaf. Mae llawer o'r nwy methan wedi ei gloi mewn gwlyptiroedd a chreigiau ar wyneb y blaned ac ar wely'r moroedd. Wrth i dymheredd yr atmosffer (ac, o ganlyniad, y môr) godi, rhyddheir rhagor o'r methan hwnnw. Mae methan yn amsugno 20 gwaith cymaint o wres o'i gymharu efo carbon deuocsid. Felly lluosogir yr effaith o gynhesu'r atmosffer. Y gofid go-iawn ydi fod y cynnydd sy'n dal i ddigwydd mewn defnydd o danwydd ffosil yn mynd i arwain at newidiadau mwy eithafol byth yn ein hinsawdd. Gellir casglu ynni'r gwynt, yr heulwen a'r llanw a'i drosi yn gyflenwad o drydan. Mae pob kilowat-awr o drydan a gynhyrchir drwy'r dulliau hyn yn disodli'r angen i losgi glo, olew neu nwy. Does dim angen bod yn ddewin i weld fod manteisio aruthrol o wneud hynny. Dangosodd astudiaeth ddiweddar gan Y Ganolfan Dechnoleg Amgen, ger Machynlleth, y gellid datblygu economi ynysoedd Prydain, ac yn sicr Cymru, i fod yn llwyr-ddibynnol ar ynni amgen. Onid yw'n llwyr synhwyrol i geisio gwneud hynny cyn gynted ag sy'n bosib?

Gol: A yw'n rhy hwyr, tybed, i'r ddynoliaeth wneud dim i atal y newid yn yr hinsawdd?

IapG: Mae'r hinsawdd yn newid a bydd yn parhau i newid. Dim ond i ni weithredu'n fuan mae digon o dystiolaeth y gellid addasu ein patrymau byw, a'n defnydd o ynni, i sicrhau na fydd y newidiadau hynny yr rhy eithafol; mor eithafol fel y byddai bygythiad gwirioneddol i oroesiad dynoliaeth. Gobeithio'n wir y daw synnwyr cyffredin i reoli ac nid hunanoldeb tymor-byr dynoliaeth.

	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT	
Glanyrafon		Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.		
HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774		

Nodion a hynodion y mis

Taith y Ffagl Olympaidd

Yn ystod y mis a aeth heibio cyhoeddwyd y bydd y Ffagl Olympaidd yn cael ei chludo trwy'r ardal hon ar ei thaith o Abertawe i Fangor ar hyd yr A487 ar ddydd Llun, 28 Mai 2012, gan ymweld â Bow Street, Tal-y-bont a Thre Taliesin. Bwriad trefnwyr y Gemau Olympaidd yw y bydd y Ffagl o fewn cyrraedd awr o siwrnai i 95% o boblogaeth Cymru. Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am y trefniadau tra bydd y Ffagl o fewn terfynau'r sir hon. Cyhoeddir pwy yn union o blith trigolion y sir a gafodd eu henwebu ar gyfer cludo'r Ffagl drwy Geredigion fel rhan o'r daith gyfnewid 8000 o filltiroedd trwy wledydd Prydain rywdro yn y flwyddyn newydd.

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:

Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

Afancod Blaen Cwm Einion

Am y tro cyntaf ers cannoedd o flynyddoedd mae afancod (*beavers*) i'w gweld yng Nghymru. Gollyngwyd dau afanc benyw yn rhydd ger pwll dŵr ar fferm Blaeneinion, Ffwrnais, fel rhan o arbrawf ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth. Prosiect preifat yw hwn ar dyddyn 75 erw sy'n cael ei redeg fel busnes hunangynhaliol



ym mhen uchaf Cwm Einion. Ar wahân i grant o £5,000 o Gronfa'r Lotri Fawr, cyllid preifat sydd wedi'i ddefnyddio i addasu dwy erw a hanner o dir gyda llyn yn ei ganol i gartrefu'r afancod. Daethpwyd â nhw o dde orllewin Lloegr, ac mae ffensys weiar, gan gynnwys ffens drydan, wedi eu codi er mwyn ceisio sicrhau na fyddant yn dianc.

Mynegwyd pryder yn lleol gan rai ynghylch y difrod a allai ddigwydd i goed naturiol yr ardal petai'r afancod yn digwydd dod yn rhydd. Gall afanc gnoi drwy foncyff coeden sy'n 6 modfedd o drwch mewn chwarter awr gyda'i ddannedd sy'n ffiniog fel cŷn. Dyma ymateb un tîrfeddiannwr lleol sydd am aros yn ddiennw: 'Gobeithio na ddôn nhw ddim yn rhydd neu fydd hi ddim yn dda yma. Mi all y rhain wneud niwed mowr os byddan nhw'n diengyd. Gobeithio fod y bobl 'ma'n gwybod beth mae nhw'n ei wneud.'

Rhai ffeithiau diddorol am yr afanc

Roedd croen afanc yn ddrud iawn yn ôl cyfraith Hywel Dda, sef 60 ceiniog – roedd yn werth cymaint â phris ceffyl, sef tua £5,000 neu fwy yn arian heddiw.

Wrth ysgrifennu hanes ei daith drwy Gymru yn y flwyddyn 1188, nododd Gerallt Gymro bod afancod i'w cael ar afon Teifi yng Nghilgerran.

Oherwydd ei fod yn cael ei hela am ei gig a'i groen a'r olew o'i gynffon, diflannodd yr afanc o Gymru ar ôl y 12fed ganrif.

Mae'r olew a ddaw o waelod ei gynffon yn cynnwys yr un sylwedd ag a geir mewn *aspirin*, ac mae'n gallu lleddfu poen.

Daw allan amlaf yn y nos, ac fe all aros o dan ddŵr am chwarter awr cyn dod i'r wyneb i anadlu.

Mae ganddo oes o ddeng mlynedd allan yn y gwyllt.

Mae gwefan ddwyieithog ar gael sy'n trafod bywyd yr afanc a'r cynlluniau i'w ailgyflwyno yng Nghymru, gweler <http://beaverinfo.org/cymru/>

Gofal Traed Aber

Ceiropodydd • Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

Triniaeth yn y cartref ar gael

Galwch Shân Jones neu Richard Ellison **01970 617269**

4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR



We do right by you

**Yswiriant,
Pensiynau,
Buddsoddiadau**

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:
01970 612331

www.nfumutual.co.uk/aberystwyth

NFU Mutual is The National Farmers' Union Mutual Insurance Society Limited (No. 10010). Registered in England. Registered Office: 10010 Road, Stamford (Leicestershire) LE10 9JF. For security and banking purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2011 – dros £14,700 i'w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa



Ffurflen gais a manylion ar gael o: www.cronfaeleri.com

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri

Garreg Wen

Tal-y-bont

Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 **e-bost:** ymholiadau@cronfaeleri.com

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 13eg 2012

Amcanion Cronfa Eleri

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'

Gwasanaeth Sul y Cofio



O'r chwith i'r dde, Mr Keith Jones (darllenydd lleys), Mr Bob Southgate, a'r Parch Peter Jones (rheithor Eglwys Dewi Sant)

Daeth tyrfia barchus iawn ynghyd i Neuadd Goffa Tal-y-bont ar fore Sul y Cofio i gynnal gwasanaeth gweddus o dan arweiniad Mr Keith Jones a'r Parch Peter Owen Jones. A hithau'n 93 mlynedd ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf a 66 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, yr oedd cynrychiolaeth o sawl cenhedlaeth yn bresennol i gofio'r bechgyn a'r merched o'r ardal hon a syrthiodd yn y rhyfeloedd. Atgoffwyd y gynulleidfa hefyd fod angen cofio am y bechgyn a'r merched a fu'n gwasanaethu yn y rhyfeloedd yn Irac ac Affganistan, a bod nifer ohonynt wedi eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol.

Cafwyd darlleniad o'r Beibl yn Gymraeg gan y Cynghorydd Nest Jenkins a darlleniad Saesneg gan Janet Morgan. Darllenwyd enwau'r colledigion gan Goronwy Jones. Glenys Edwards a oedd wrth y piano. Darparwyd dwy dorch gan Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr, ac fe'u gosodwyd ar y ddwy gofeb gan Bob Southgate a Maureen Jenkins. Cyn seinio'r 'caniad olaf' ar y corned gan Steffan Thomas, ymunwyd i ganu geiriau emyn Eifion Wyn, 'Efengyl Tangnefedd', '...fel na byddo mwyach na dial na phoen / na chariad at ryfel ond rhyfel yr Oen.' Gwnaed casgliad o £131.37 yn ystod y gwasanaeth er budd Apêl Pabi y Lleng Brydeinig.

Ysgol

Nofio

Aeth nifer o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 i Ganolfan Hamdden Plasrug i gymryd rhan yng ngala nofio'r Urdd. Ymdrechodd pawb yn arbennig a chafwyd canlyniadau da.



Plant mewn angen

Trefnodd Cyngor yr Ysgol fore o hwyl ar y 18fed o Dachwedd i godi arian i blant mewn angen. Gwahoddwyd y rhieni i ymuno â ni. Cododd yr ysgol £160.00. Roedd yna lawer o stondinau fel peintio wyneb, enwi'r arth, twba lwcus a bingo. Cawsom gacen a phaned, sioe dalentau a chystadleuaeth gwisg ffansi. Mwynhaodd pawb y bore a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Leesi, Celyn, Gemma ac Emily



Phys-Chic gan Willow a Ruby

Daeth merched Phys-Chic o'r Coleg i'r ysgol i wneud arbrofion gyda ni fel gwneud *sherbert*, gwneud peli bownsio a gwneud roced gyda finegr a phowdwr codi. Ar y diwedd gwnaethon ni bersawr a gwnaeth y bechgyn 'buzz-box'. Hoff beth fi oedd pan aethon ni allan a rhoi losin Mentos mewn cola ac mae'r cola yn chwythu lan.

Gwnaethon ni *sherbert* a rhoddon ni'r *sherbert* mewn potel o cola. Gwnaethon ni roced ac wedyn persawr.

Gala Nofio'r Urdd gan Ben a Milly

Es i i gala nofio gyda'r dosbarth. Gwnes i ras pili-pala. Des i yn bedwerydd yn fy ras i.


Es i i gala nofio gyda rhai o fy ffrindiau. Roeddwn i, Ruby, Willow a Mabli yn y ras gyfnewid. Roedd yn swllyd pan oedd yr ysgolion wedi bod yn gweiddi a sgrechian yn y rasys i gyd. Roedd hi'n boeth iawn. Roedd wedi bod yn hwyl. Y peth mwyaf pwysig yw cymryd rhan a chael hwyl ac mae pawb wedi gwneud hynny. Roedd rhai pobl yn nerfus achos bod nhw ddim wedi gwneud gala nofio o'r blaen.

Ysgol

Panto Madog gan Zeb a Ffion

Es i i banto Madog gyda'r ysgol. Roedd y panto am Madog mewn cwch. Roedd yna storm. Roedd Madog yn ffeindio ei hunan yn India. Roedd dyn o'r enw Icishido yn dweud "Bibili-Bobili" trwy'r amser. Roedd Icishido yn caru Mimi Hardda ond roedd dyn drwg yn treial lladd Mimi Hardda.

Es i i weld pantomeim Madog yng Nghanolfan y Celfyddydau. Roedd yn dda ac yn ddoniol. Roedd person yn dweud "Bibili-Bobili" a'i enw ef oedd Icishido. Dwi wedi mynd gyda'r ysgol ac mae wedi bod yn hwyl.



Storfa Canolbarth Cymru

STORFA DODREFN

STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR

PACEDU

DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS

www.midwalesstorage.co.uk

Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

Ffôn: 01654 703592

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Tal-y-bont



Panto Madog

Aeth plant yr ysgol i weld Panto Madog ar yr 21ain o Dachwedd yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth. Roedd na lawer o ysgolion yna. Gweithiodd yr actorion yn galed iawn. Roedd yna ddyn yn dweud jocs doniol a dwl. Roedd yna grocodeil oedd yn erlid yr actorion ond dim ond un esgus oedd e!

Tia Johnston Jones, Louisa Williams, Hana Evans

XL Wales

Ar ddydd Iau y 24ain o Dachwedd daeth Mr Eifion Collins o XL WALES i'r ysgol i wneud Knex gyda ni. Y dasg oedd adeiladu sled i Siôn Corn. Roedd yn rhaid cael lle i'r sachau anrhegion a Siôn Corn. Ar ddiwedd y dydd gwnaeth pawb fwynhau.

Bedwyr Siencyn a Gwydion James



Dydd Mercher diwethaf cefais i lawer o hwyl pan es i gyda'r ysgol i ymweld â'r Ganolfan Dechnoleg ar bwys Machynlleth. Gwelais i dŷ eco yno. Dysgais i am wahanol ffyrdd i osgoi gwastraffu trydan yn ein cartref. Un ffordd o wastraffu trydan ydy wrth orddedfnyddio golau yn ein cartref pan nad oes angen golau ymlaen.

Callum Farrar

Ar Ddydd Mercher aethom ni gyda'r ysgol i ymweld â'r Ganolfan Dechnoleg ar bwys Machynlleth.

Dysgom ni lawer am y tŷ eco yno. Yn y tŷ eco maent yn defnyddio llawer o ddeunyddiau sydd wedi eu gwneud allan o bethau naturiol e.e. allan o bren.

Emily Bradley a Seren Putt

Wizard of Oz !

Ar Ddydd Iau 3ydd o Dachwedd aethom ni i weld sioe gerdd Wizard of Oz yn ysgol Penglais. Roedd y panto am ferch oedd wedi cael breuddwyd. Roedd gwisg y ferch yn bert. Roedd y llew yn ddoniol a'r wrach yn frawychus. Roedd pawb wedi mwynhau.

Heledd Davies, Libby Foulkes a Billy Swanson

Llangynfelyn

Ysgrifennwyd newyddion isod Ysgol Llangynfelyn y mis yma gan blant dosbarth Cyfnod Allweddol 2. Dyma'r newyddion yng ngeiriau'r plant:

XL Wales gan Mabli a Gracie

Daeth Ysgol Craig yr Wylfa i'n hysgol ni. Yn y bore roedd y plant bach wedi gwneud tŷ i arth. Roedden nhw wedi eu gwneud allan o Knex. Yn y prynhawn roedd Blwyddyn 3, 4 a 5 yn gwneud sled mas o Knex. Roedd yn gorfod dal dwy sach a helpwyr bach Siôn Corn.

Roedd Mr Collins wedi dod o XL Wales. Roedd Mr Collins wedi dod â Knex a gwnaethon ni sled i Siôn Corn. Roedden ni mewn partneriaid. Roeddwn i gyda Milly. Roedd Craig yr Wylfa wedi bod yna hefyd. Gwnaethon ni cwis gyda Miss Jones ac Ysgol Craig yr Wylfa ac amser chwarae buon ni'n chwarae yn y dail.



Plant Mewn Angen gan Levi

Ar ddydd Gwener roedd hi'n Ddiwrnod Plant Mewn Angen. Roedden ni wedi cael cacen Pudsey a chael helpa drysor Pudsey. Gwisgom ni lan mewn pyjamas melyn a smotiau. Cawsom ni fisged Pudsey.

Ennill dwy gystadleuaeth

Enillodd yr ysgol ddwy gystadleuaeth yn ddiweddar. Yn gyntaf enillodd yr ysgol grysg rygbi tîm 7-bob-ochr Cymru wedi ei arwyddo gan aelodau'r tîm. Roedd yn rhaid i'r plant adnabod ac enwi logos y gwledydd a fu'n chwarae yng nghystadleuaeth rygbi'r byd yn Seland Newydd. Trefnwyd y gystadleuaeth gan Geredigion Actif a daeth Bryn Evans, cydlynnydd Ceredigion Actif, i'r ysgol i gyflwyno'r crys inni.

Yr ail wobwr a gafodd yr ysgol oedd gwobr am ein Prosiect Ewropeaidd *Comenius*. Gwnaeth Mrs Nelves ffilm o'n gwaith yn cynnwys ffotograffau o'r ymweliadau â'r Almaen a Denmarc a phan ddaeth yr athrawon i Gymru. Dangosodd hefyd luniau o waith y plant yn y ffilm. Danfonodd y ffilm i gystadleuaeth

y Cyngor Prydeinig, 'Your Story – Broadening Horizons – My Comenius Experience'. Sioc fawr oedd clywed ychydig wythnosau yn ddiweddarach fod y ffilm wedi ennill y drydedd wobwr allan o gannoedd trwy Brydain i gyd! Aeth Mrs Nelves a Miss Foulkes i'r seremoni wobrwyo ym mhencadlys y Cyngor Prydeinig yn Llundain. Cafwyd diwrnod arbennig yn Llundain a chyflwynwyd tystysgrif i Mrs Nelves gan Althea Warner, Cydlynnydd Prosiectau y Gymuned Ewropeaidd yn Adran Addysg yn San Steffan, a chyflwynwyd £30 o dalebau siopa i'r ysgol. Ysgol Llangynfelyn oedd yr unig ysgol o Gymru i ennill gwobr. Gallwch weld y ffilm

ar: <http://competition.lifelonglearningprogramme.org.uk/comenius/film.php>



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Ar ddechrau'r cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 28 Tachwedd, estynnodd y Cyngorydd Eric Roberts groeso cynnes i'r aelodau, a hefyd i Cathryn Morgan, Swyddog Cymunedol Ray Ceredigion.

Ray Ceredigion

Wedi cyflwyno cefndir a chyd-destun, amcanion a gweithgareddau'r elusen 'Ray Ceredigion' i hybu chwarae 'naturiol' ymhlith plant a phobl ifanc y Sir, datganodd Cathryn Morgan eu bwriad i gynnal cyfres o sesiynau chwarae i blant 8-12 mlwydd oed yn y Maes Chwarae a'r Cae Bach rhwng 4 a 6 o'r gloch ar nosweithiau Gwener o ddiwedd mis Chwefror 2012 ymlaen. Cytunodd y Cyngor i roi caniatâd i ddefnyddio cyfleusterau'r Cyngor ac i roi pob cefnogaeth ymarferol i'r fenter.

Tai Lleol

Adroddodd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn fod ei chynnyg i fabwysiadu Polisi Tai Lleol newydd ledled Ceredigion wedi derbyn croeso mewn egwyddor yng nghyfarfod diwedd Tachwedd o'r Cyngor Sir, ond bod angen peth mireinio arno cyn y gellid ei gyflwyno i'w fabwysiadu fel polisi swyddogol gan y Cyngor. Adroddwyd hefyd fod Digby Bevan, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion, wedi rhoi gwybod i'r Cyngor bod canran uchel o drigolion Ceulanamaesmawr, Llangynfelyn ac Ysguborycoed wedi ymateb i'r holiadur. Nid yw'r gwaith o ddadansoddi'r ymatebion wedi'i gwblhau eto ond gobeithir cyflwyno'r canlyniadau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Cynnal a Chadw'r Gaeaf

Mae'r Cyngor Sir wedi cadarnhau bod y ddau safle a ddewiswyd gan y Cyngor Cymuned i osod biniau halen ychwanegol (sef ar bwys y Cae Bach ac ar bwys Hysbysfwrdd Cyhoeddus Bont-goch) yn fannau diogel ar eu cyfer. Mae'r biniau eisoes wedi eu harchebu a disgwylir iddynt fod yn eu lle erbyn dechrau mis Rhagfyr.

Llwybrau

Derbyniwyd ymateb gan Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru yn adrodd bod y Cyngor Sir wedi derbyn cyfarwyddyd i sicrhau bod yr ysgubwr yn glanhau'r llwybr seiclo rhwng Penrhiw a Llysnyr.

Adroddodd y Clerc iddo gynnal arolwg cychwynnol i weld a oedd hi'n ymarferol codi llwybr troed i'r fynwent gyhoeddus o ddau gyfeiriad, sef o'r de (o fynedfa Tanrallt ar bwys Maes-y-deri) ac o'r gogledd (o'r ffordd geffyl gyferbyn ag Erglodd). Ar sail canlyniadau'r arolwg hwn cytunodd y Cyngor i ofyn i'r Clerc fwrw ymlaen i gasglu rhagor o fanylion o'r gost debygol o godi llwybr troed o Faes-y-deri i'r fynwent yn unig.

Ysbyty Bronglais

Darllenwyd llythyr oddi wrth Gyngor Tref Aberystwyth yn tynnu sylw at y posibilrwydd cryf y bydd toriadau sylweddol i'r gwasanaethau yn Ysbyty Bronglais. Roedd Cyngor Tref Aberystwyth yn annog pob Cyngor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda chopi i Gadeirydd Bwrdd Iechyd Hywel Dda ac eraill yn gwrthwynebu diraddio statws yr ysbyty a'r gwasanaethau a gynigir yn Aberystwyth. Cytunwyd i anfon llythyr yn enw'r Cyngor at y Gweinidog a chopïau at yr Aelod Cynulliad lleol ac at gadeirydd Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Ariannol

Cyflwynwyd drafft cyntaf y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac eglurwyd y bydd raid i'r Cyngor gytuno ar y gyllideb derfynol a gosod lefel yr archebiant yng nghyfarfod mis Ionawr. Rhagwelir na fydd y Cyngor wedi tanwario na gorrwario yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol oni bai fod costau annisgwyl yn codi rhwng hyn a diwedd mis Mawrth. Cymeradwywyd y datganiad ariannol a'r datganiad llywodraethu blynyddol am 2010/11 yn unol â gofynion Rheoliad 9(3) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd) a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Ffordd y Figyn

Fel yr addewais y tro diwethaf, dyma barhau ar y ffordd gan adael Neuadd yr Ynys am y tro, mynd heibio'r graig lle gwelid cwningod gynt, a fferm y Gelli cartref Ann a Wil, cyfoedion Iorwerth a minnau yn yr ysgol, a dod at y tŷ wrth fynedfa Plas y Gwynfryn lle dywedid fod ysbryd yn blino pobol. Cofiaf y faciws a drigai yno yn dweud eu bod wedi dychryn wrth gwrrd â'r ysbryd ar y stâr. Roedd y plas yn gyrchfan bwysig inni am fod digon o goed concyrs hardd yno. Gresyn fod chware concyrs wedi peidio â bod gan i ni gael oriau difyr mewn gornestau ffyrnig yn yr ysgol pan oedd rhai yn twyllo drwy roi'r concyrs yn y ffwrn i galedu!

Er mai yn *Cheltenham* (cyrchfan boblogaidd gan bobol fawr yr oes honno dros fisoedd y gaeaf) y ganed William Basil (Tickell) Jones a urddwyd yn 118fed Esgob Tyddewi ym 1874, fe'i bedyddiwyd yn Eglwys Llangynfelyn a'i fagu yn y Gwynfryn yn fab i William Tilsley Jones, a aned ym 1782 yn fab i William a Mary, merch William Tilsley, Ficer Llandinam, a'i wraig. Nhw fu'n gyfrifol am adeiladu'r Gwynfryn presennol ym 1814, ac am sychu a diwyllio rhannau o'r figyn a rhoi trefn a chynllun ar y tiroedd. Mabwysiadwyd y geiriau Lladin '*Mors mihi lucruwm*' fel arwyddair (*motto*) y teulu, sef ymadrodd yr Apostol Paul, 'Marw i mi sydd elw' – geiriau digon priodol o gofio i un o'r tylwyth ddod yn Esgob.

Y cyntaf o deulu'r Gwynfryn y gwyddom amdano yw John ap William oedd yn fyw ym 1690 ac yn berchen tiroedd ym mhlwyf Llanbadarn Fawr. Roedd Jane mam yr Esgob yn ferch i Henry Tickell, Leytonstone, Essex. Cafodd William Basil ei addysg yn Ysgol Amwythig a Choleg y Drindod, Rhydychen, gan raddio'n B.A. gydag anrhydedd yn y clasuron ym 1844. Wedi graddio'n M.A. ym 1847 a dod yn Gymrawd o Goleg y Frenhines, fe'i hurddwyd yn ddiagon ym 1848 ac yn offeiriad ym 1853 gan lafurio yn Esgobaeth Caerefrog a gwasanaethu fel Archddiacon am saith mlynedd, cyn ymgartrefu yn Llys yr Esgob, Abergwili, ym 1874 gan aros yno hyd ei farw ar 14 Ionawr 1897.

Parhaodd William Basil yn Nhyddewi y gwaith a gychwynnwyd gan ei ddau ragflaenydd enwog, Thomas Burgess a Connop Thirlwall, a'i ddatblygu. Dyrchafodd safon gwaith yr esgobaeth, yn ysbrydol, yn fugeiliol, ac yn addysgol, ac ad-drefnu ei pheirianwaith. Dywedir mai Cymro go afwrwydd ydoedd a heb fedru'r Gymraeg yn rhugl, ac ni faliai lawer am genedligrwydd arbennig Cymru. Ond diolch ei fod yn gyfeillgar gyda'r Ymneilltuwyr ac yn cydnabod iddynt gael cam ynglŷn â chladdu ym mynwentydd yr eglwys. Roedd yn falch o Ddeddf Gladdu 1880 a roddai hawl i weinidog Ymneilltuol weinyddu mewn angladdau ym mynwentydd y mannau hynny. Roedd yn ymwelydd cyson â'i hen gartref er mor brysur ydoedd fel Esgob.

Ar ôl ei farw ar 14 Ionawr 1897 dygwyd ei gorff ar y trên o Gaerfyrddin i Aberystwyth gyda thorffeydd ar strydoedd y dref ac ym mhob gorsaf ar y ffordd yn dangos parch iddo. Newid trên yn Aberystwyth a'i adael yn Ynys-las lle rhoddodd gweithwyr yr arch ef yn yr hers yn cael ei thynnu gan geffylau'r Gwynfryn. Gorffwys yno dros nos ac i Eglwys Llangynfelyn trannoeth i'r cynhebrwng cyn cael ei gladdu ym medd nodedig y teulu yn y fynwent gerllaw.

Ar ôl colli'i wraig gyntaf, ailbriododd yr Esgob ar 2 Rhagfyr 1886 ag Anne, merch G.H.Loxdale, Aigburth, Lerpwl a ganed iddynt fab a dwy ferch, Audrey Dorothea Loxdale a Gwladys Mary Loxdale. Roedd Audrey yn ail wraig i Dafydd Evans, Pengelli ger Castellnewydd Emlyn, brawd i'r gweinidog a'r bardd Wil Ifan, a Maggie priod T. J. Davies, Erwau Glas, Y Borth. Byddai'u plant Gwenith a Dan yn sôn yn aml am Anti Audrey. Bu Audrey Evans ar Fainc Llys Ynadon Tal-y-bont am flynyddoedd a chyflwynodd arian i Ysgol Llangynfelyn bob blwyddyn pan oeddwn i yn yr ysgol inni gael te parti a mabolgampau. Priododd Gwladys ychwaer gyda'r Parch John Griffin, ficer yn Suffolk ac wedi'i farw dychwelodd i'r Gwynfryn. Ŵyr iddi yw Simon Lloyd Williams, Tŷ Newydd (Moelglomen) Bont-goch.

WJE

GWEITHDYCELF

i blant a phobl ifanc
yn y Neuadd Goffa
28 Rhagfyr
10.30 - 3.00
gyda Ruth Jen a
Helen Jones
Manylion 832725

Clwb Nos Wener



Arwel Pod Roberts, Stompfeistr swyddogol y Steddfod Genedlaethol, oedd gŵr gwadd cinio Nadolig Clwb Nos Wener. Mae gan Arwel Pod gysylltiadau teuluol â'r ardal, a bu ef a'i wraig Lleucu yn byw yn Nhre Taliesin ryw ddeunaw mlynedd yn ôl. Bydd amryw yn adnabod Lleucu fel merch Nans a'r diweddar Deulwyn Morgan, Llandre. Yn

unol ag ysbryd llawer o ddeunydd barddonol y Stomp, darllenodd Arwel sawl cerdd ddoniol a ffraeth ac roedd ei gynulleidfa yn ei dyblau'n chwerthin.



Criw Os Mêts yn mwynhau sesiwn goginio dan arweiniad Mair Nutting yn Neuadd Goffa Tal-y-bont.

GAREJ DAVMOR

**M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars**

Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol. Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Gwilym Huws

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr,
Penglwern,
Tal-y-bont, Ceredigion, SY24 5BN
erbyn dydd Llun 9 Ionawr 2012

Casglu £812 i Blant Mewn Angen



Ar nos Wener 18 Tachwedd daeth plant ifanc Tal-y-bont at ei gilydd i gasglu arian tuag at ymgyrch Plant Mewn Angen. Trefnwyd ras/taith gerdded mewn gwisg ffansi o amgylch y pentref, ac roedd gwobrau am y wisg ffansi orau, ac i'r plentyn a gasglodd y nifer fwyaf o noddwyr. Cafwyd raffl a disgo i orffen y noson. Casglwyd y swm o £812.36. Hoffai Mike Putt ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at y raffl ac i'r holl rieni am eu cefnogaeth – da iawn bawb am noson lwyddiannus iawn.

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

**Bistro
Gannets**

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Dofednod Cwmtynant



Dofednod ffres o fferm leol.
Archebwch wydd, twrci, hwyaden
neu gyw iâr erbyn y Nadolig
Cysylltwch â Dilwyn, Marion,
Rhydian neu Elgan
Tynant, Tal-y-bont 01970 832 257


**Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd**

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion, SA46 0PA

Chwaraeon

13 Iwcus



Tynnwyd y llun hwn o dîm pêl-droed Tal-y-bont cyn y gêm gwpan yn erbyn Padarn United, ond chafwyd dim lwc ar y diwrnod wrth i'r tîm golli 3-2, gyda Phadarn yn sgorio gyda chic o'r smotyn yn y funud olaf un. Ond roedd y rhif 13 yn un lwcus i Dal-y-bont ar 26 Tachwedd wrth i'r bechgyn roi crasfa i Eilyddion Llanilar 13-0. Gwaetha'r modd does dim digon o le yn y papur i enwi'r holl sgorwyr!!

Rhedwr o fri

Llongyfarchiadau i Bedwyr, Tanrallt, am ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth Traws Gwlad yr Urdd, ardal Aberystwyth, i fechgyn blwyddyn 5 yn ddiweddar. Bydd yn cynrychioli ardal Aberystwyth yn y rownd nesaf yn Llangrannog. Pob lwc iti Bedwyr!



Dyma gychwyn ar golofn newydd yn y papur – cyfle i aelodau o'r gymuned ddatgan barn yn ddi-flewyn-ar-dafod ar faterion y dydd, gyda'r pwyslais ar faterion sydd o ddiddordeb i'n darllenwyr yma yng ngogledd Ceredigion. Y golygydd cyffredinol sydd â'r fraint o gael y Gair Olaf cyntaf ond bydd croeso i chi gysylltu ag ef os byddwch am gyfrannu at y golofn yn y dyfodol.



argraffu da
am bris da

y/Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

“Milgi Milgi!”



Roedd y Llew Gwyn dan ei sang nos Sadwrn 26 Tachwedd ar gyfer y Noson Rasys a drefnwyd gan Gymdeithas Maes Chwarae Cae'r Odyn Galch. Roedd wyth ras yn cael eu rhedeg ar y teledu yn y bar, chwe ras ceffyl a dwy ras milgwn, a rhoddwyd cyfle i bawb osod punt neu ddwy ar geffyl neu gi. Llwyddwyd i godi swm anrhydeddus i gynorthwyo'r Gymdeithas i gynnal y cae chwaraeon.

Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar i bawb a fu ynghlwm â threfniadau'r noson, ond yn arbennig i'r trefnydd Ceri Jones, yr MC Gareth Pritchard, Mike Putt, a noddwyr y rasys sef: Y Lolfa, Davies & Cooke, Spar Bow Street, Spar Tal-y-bont, Iwan Jones, Ceri Jones, Sgaffaldiau MW, Teiars Huw Lewis, Ray Burrell, a Pharc Carafanau Riverside.

Y Gair Olaf



'Gallaf sicrhau darllenwyr *Papur Pawb* nad oes yr un stori yn y papur yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd drwy hacio ffonau symudol. Mae ein holl hanesion yn ganlyniad i holi'r hwn-a'r-llall, hwnt ac yma, o fewn y gymuned, a hynny'n agored a heb ddichell.

Mae'n annhebyg y byddaf yn cael fy ngalw gerbron ymchwiliad cyhoeddus Levenson, sy'n ymchwilio i safonau'r wasg, ond fel mae'n digwydd flynyddoedd maith yn ôl (tua 1981 rwy'n meddwl), cefais fy mygwith â'r *Press Complaints Commission* gan olygydd papur adnabyddus lleol. Roeddwn wedi gwneud sylw ysgafn yn *Papur Pawb* am y papur nodedig hwnnw ond doedd y golygydd ddim yn gweld y jôc, er nad oedd yn deall gair o'r hyn a ddywedwyd gan nad oedd yn siarad Cymraeg. Beth bynnag, ymhen hir a hwyr daeth yntau'n olygydd y *Mail on Sunday*, ond gwaetha'r modd rwy'n dal yn ffyddlon i'r hen bapur bro.

Dros y blynyddoedd, ymddangosodd ambell i wall yn y papur (fel yr enwog gyhoeddiad fod pâr wedi dyweddio ond, yn ddiarwybod i'r papur, doeddent heb ddweud wrth eu rhieni, felly bach o hylabalw!). Ond, yn wahanol iawn i bapurau tabloid Llundain, nid adrodd am wendidau na methiannau pobl y mae *Papur Pawb*. Eto i gyd, rhaid dweud ein bod yn ffodus iawn nad oes 'celebs' yn byw yn yr ardal (hynny yw, ac eithrio....!)

Gobeithio y manteisiwch ar y cyfle i fynegi'ch teimladau drwy'r golofn hon, ond ni fyddwn yn cynnwys sylwadau angharedig am drigolion yr ardal, beth bynnag eu safbwyntiau.'

Gwyn Jenkins